

Llais Gwirfoddol Cylchlythyr

Rhifyn 1 2019
www.flvc.org.uk



Hayley Hill, Rheolwr Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Fran Hughes, Swyddog Datblygu Iechyd a Lles yn hyrwyddo gwefan Un Pwynt Mynediad.

*Cefnogi, Hyrwyddo a
Datblygu Gwaith
Gwirfoddol a
Chymunedol*



Cefnogi Trydydd
Sector Cymru
Third Sector
Support Wales

FLVC
Flintshire Local Voluntary Council
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint

- 2 Yn y Rhifyn Hwn
- 3 Newyddion FLVC
- 5 Newyddion Cymunedol
- 7 Digwyddiadau a Hyfforddiant
- 8 Ariannau
- 10 Gwirfoddoli
- 12 Llywodraethu Da

*Gallwch fod
yn rhan o'r
cylchlythyr hefyd!*

Os hoffech gyfrannu erthygl i rifyn nesaf Llais Gwirfoddol yna eboatiwch eich erthygl atom:
Jane Hewson, Swyddog Cyfathrebu, Corlan,
Parc Business yr Wyddgrug, Ffordd Wrecsam,
Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1XP
info@flvc.org.uk
01352 744000

Fuasech chi'n fodlon derby nein newyddlen Llais Gwirfoddol ar e-bost ?

Bydd copiau wedi eu hargraffu ar gael bob amser ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnig copiau called. Fodd bynnag, os hoffech chi ein helpu i leihau costau a gofalu am yr amgylchedd ac os ydych yn fodlon bwrw golwg ar y newyddlen ar-lein, gofynnwn yn garedig ichi gysylltu gyda Jane Hewson, y Swyddog Cyfathrebu, e-bost jane.hewson@flvc.org.uk



Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC)

Ein Gweledigaeth:

Gweledigaeth FLVC yw sector gwirfoddol a chymunedol cryf, cynaliadwy ac effeithiol, sy'n cynnwys pobl ac yn gwasanaethu pobl Sir y Fflint.

Ein Cenhadaeth:

Cenhadaeth FLVC yw cefnogi, datblygu a hyrwyddo gweithgareddau gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint a chryfhau galu gwrpiau gwirfoddol a chymunedol I gyfrannu at ansawdd bywyd pobl a chymunedau Sir y Fflint.

Croeso i'r Llais Gwirfoddol ac i'n rhifyn cyntaf ar gyfer 2019.

Cefnogi Trydydd Sector Cymru

Tystiolaeth o'r Effaith

Fel aelod o Gefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW), rydym ni yma yn FLVC yn cytuno i gynnig set o Safonau Gwasanaeth Craidd yn ymwneud â Gwirfoddoli, Cyllid Cynaliadwy, Trefn Llywodraethu Da a Chydweithio a Dylanwadu. Rydym yn croesawu'r gwaith canolbwyntio newydd gan aelodau Cefnogi Trydydd Sector Cymru ar gynnig tystiolaeth ar effaith ein gwaith ym mhob un o'r pedwar maes. Dilynwch y ddolen isod i gynnig eich barn chi am ein gwasanaeth ichi fel eich Cyngor Gwirfoddol Lleol a sut gallwn ni wella ein gwasanaeth



Has your organisation received support from FLVC in the past? Take our short survey <https://www.surveymonkey.co.uk/r/VZMFD5X> and tell us what you think of our work.

Ydi'ch mudiad chi wedi cael cefnogaeth gan FLVC yn y gorffennol? Cwblhewch ein harolwg byr <https://www.surveymonkey.co.uk/r/6Z2CFLF> i roi gwybod eich barn am ein gwaith.

Cadeirydd Newydd



Bu i FLVC groesawu eu Cadeirydd newydd Paul Hinchliffe wedi'r Cyfarfod Blynnyddol ym mis Medi 2018. Mae Paul yn meddu ar dros 18 mlynedd o brofiad

fel Ymddiriedolwr gyda FLVC ac mae'n meddu ar brofiad eang o weithio yn y Sector Gwirfoddol gan gynnwys fel Is-gadeirydd ar Fwrdd Ymddiriedolwyr Dangerpoint (Talacre) ac fel aelod bwrdd yr Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned (PACT). Mae

12 aelod ar Fwrdd FLVC, a phob un ohonyn nhw'n meddu ar brofiad sylweddol o reoli gwasanaethau yn y Trydydd Sector ac ar y cyd â'r Sectorau Cyhoeddus a Phreifat.

Grŵp Partneriaeth y Trydydd Sector

Flintshire Diolch yn fawr i ddeg aelod Grŵp Partneriaeth Trydydd Sector Sir y Fflint am roi o'u hamser i gefnogi ymgynghori trydydd sector strategol yn ymwneud â pholisïau a chynlluniau allweddol ynghylch cynnig Gwasanaethau Cyhoeddus yn Sir y Fflint. Mae'r grŵp hwn yn cysylltu'n uniongyrchol gyda Compact Sir y Fflint a bu iddyn nhw gynnig adborth ar y canlynol

- Cynlluniau ynghylch Lles y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus
- Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Unigrwydd ac Arwahanrwydd
- Strategaeth Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

I wybod mwy, cysylltwch gyda

ann.woods@flvc.org.uk

Swyddfa FLVC

Wrth ichi ddarllen hwn, mi ddylai bod Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint wedi ymgartrefu yn eu swyddfa newydd yn y CORLAN, wedi ychydig o ansicrwydd ynghylch oedden ni'n symud ai pheidio. I gadarnhau, byddwn yn dal yn y CORLAN ond bydd llai o ystafelloedd ar gael i'w llogi ac ni fyddwn yn gyfrifol am isosod swyddfeydd i grwpiau eraill. Fodd bynnag, mae ein gwasanaethau craidd yn cefnogi'r Trydydd Sector, yn parhau i fod yr un fath. Rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu i'r CORLAN unwaith eto inni eich cefnogi fel gwirfoddolwr, ymddiriedolwr neu weithiwr yn cynnig gwasanaethau i drigolion Sir y Fflint.

Chief Officer
01352 744028
ann.woods@flvc.org.uk

Ann

	Rhwydwaith Trefnwyr Gwirfoddoli	Rhwydwaith Lles N.E.W.	Rhwydwaith Ymddiriedolwyr	Digwyddiad / Rhwydwaith Blynyddol
Mai		9fed Mai 2019 9.30yb-12.00yp Alyn Waters		
Mehefin			Date TBC Cwrdd ar Cyllidwr	6ed Mehefin 2019 VOLFEST – Digwyddiad Dathlu Gwirfoddolwyr Venue TBC
Gorffennaf		I Ifed Gorffennaf 2019 9.30am-12.00pm Ysgol Fusnes Cambria Nor thop		
Awst				
Medi		12eg Medi 2019 9.30am-12.00pm Plas Pentwyn, Wrexham		12eg Medi 2019 Cyfarfod Blynyddol Theatr Clwyd
Hydref				
Tachwedd		14eg Tachwedd 2019 9.30am-12.00pm Ysgol Fusnes Cambria Northop		
Rhagfyr				
	I gadw lle ar gyfer Digwyddiad Trefnwyr Gwirfoddoli cysylltwch gyda Janet Owen ar 01352 744016	I gadw lle ar gyfer Digwyddiad Lles, cysylltwch gyda Karen Peters ar 01352 744015	I gadw lle ar gyfer Digwyddiad Ymddiriedolwyr, cysylltwch gyda Shaun Darlington ar 01352 744027	I gadw lle ar gyfer Digwyddiad Blynyddol, cysylltwch gyda Jane Hewson ar 01352 744030

DEAFBLIND UK

Ydych chi neu rywun rydych chi'n eu hadnabod wedi eu heffeithio gan nam ar eu golwg a'u clyw? Mae Deafblind UK yn elusen genedlaethol fu'n cefnogi pobl gyda nam ar eu golwg a'u clyw i fyw y bywyd maen nhw'n ei ddymuno ers 90 mlynedd. Os ydych chi neu rywun rydych chi'n eu hadnabod wedi eu heffeithio gan nam ar eu golwg a'u clyw, gallwn eich cefnogi mewn sawl ffordd.

Ymysg ein gwasanaethau cefnogi mae'r canlynol:

- Grwpiau cefnogi a chymdeithasol sydd eisoes yn y Rhyl, Llandudno a Wrecsam sy'n mwynhau ystod o weithgareddau difyr y mae cyfle i bawb fanteisio arnyn nhw fel digwyddiadau gyda siaradwyr gwadd a sesiynau celf a chrefft.
- Gwasanaeth allgymorth i gynnig gwybodaeth a chefnogaeth un-i-un i helpu pobl oresgyn eu heriau.
- Cefnogaeth a chynghor pwrpasol ynghylch technoleg cynhwysiant digidol
- Galwadau ffôn cyfeillgar i aelodau er mwyn holi am eu lles
- Gwasanaeth cyfeillio i unrhyw un gyda nam ar eu golwg neu eu clyw sy'n teimlo'n unig neu ar wahân, neu sy'n dymuno derbyn cefnogaeth i fanteisio ar gyfleoedd cymdeithasol

- Cardiau Pen-blwydd a Nadolig neu alwadau ffôn
- Cylchgrawn chwarterol, 'Open Hand', sydd ar gael mewn sawl ffurf sy'n hawdd manteisio arnyn nhw, gan gynnwys print bras a CD sain gyda newyddion, gwybodaeth ddefnyddiol ac ysgrifau nodwedd
- Modd o fanteisio ar ein llinell gymorth am gyngor defnyddiol i aelodau, teuluoedd a gofawyr
- Modd o fanteisio ar garafannau gwyliau addas i bawb gyda chymhorthdal sylweddol ym Mhrestatyn ac East Anglia.
- Sesiynau pysgota gyda chymorth yn ystod misoedd yr haf
- Sesiynau ymwybyddiaeth Deafblind ar gyfer mudiadau a grwpiau cymunedol eraill I elwa o'r gefnogaeth uchod, ewch i'n ffurflen ymaelodi ar-lein neu i wybod mwy, cysylltwch gyda Rachel Twiss, Swyddog Ymgysylltu gyda'r Gymuned ar gyfer gogledd ddwyrain Cymru ar **07900738676** neu anfonwch e-bost at **rachel.twiss@deafblind.org.uk** Neu fel arall, ffoniwch **0800 132320** neu ewch i **www.deafblind.org.uk**

Beicio i Bawb- Cynllun Beicio



Mae cynllun beicio cyffrous i bawb, wedi ei gydnabod yn genedlaethol wedi lansio yng Ngogledd Cymru. Mae 'Beicio i Bawb' yn cynnig cyfle i blant ac oedolion gydag anableddau neu wahanol anghenion fwynhau buddion beicio'n rheolaidd mewn

amgylchedd diogel a chymdeithasol yn defnyddio ystod o feiciau wedi eu haddasu'n arbennig gyda chefnogaeth gan staff profiadol a gwirfoddolwyr hyfforddedig. Bu i'r elusen, Prosiectau Beicio lwyddo i ennill cyllid gan Sefydliad Steve Morgan i sefydlu canolfannau Beicio i Bawb ledled Sir y Fflint a Sir Ddinbych. Bydd y safleoedd yn gymysgedd o barciau lleol, lonydd glas a thraciau athletau, mannau diogel i'r rheiny sy'n rhoi cynnig ar feicio am y tro cyntaf neu'n dychwelyd wedi cyfnod hir heb feicio, mae'n

bosib oherwydd cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu. Dywedodd Janet Gregory, Cydlynnydd y Cynllun, "Rydym yn croesawu unigolion, grwpiau a theuluoedd i gymryd rhan. Os hoffech chi wybod mwy, efallai hyfforddi fel gwirfoddolwr, rhoddi beic neu godi arian inni yna cysylltwch gyda mi os gwelwch yn dda." Mae yna sesiwn wythnosol eisoes ar ddydd lau o 10yb tan 12yp yng Nghanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy yn Queensferry. Mae yna safle sylweddol heb draffig y tu ôl i'r ganolfan ac mewn tywydd anffafriol, byddwn yn beicio y tu mewn yn y neuadd chwaraeon. Mae ystod o wahanol feiciau ar gael gan gynnwys beiciau tair olwyn, beiciau llaw, beiciau ochr yn ochr a chlodwyr ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn. Dim ond £3 y pen ydy'r sesiwn ac mae croeso i ofalwyr gymryd rhan yn rhad ac am ddim.

Janet Gregory, Cydlynnydd G. Cymru:
janet.gregory@cycling.org.uk
07469 148247

Gan gydweithio gydag arwyr yr ardal – dim ond ychydig o'n gwirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser i helpu. Diolch yn fawr i Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu dros yr Wyddgrug, Beth wnaeth gwrdd gyda ni ac a wnaeth ymweld â Hwb Diogelwch yr Wyddgrug hefyd.

Rydym yn trefnu arddangosfa dros dro i amlygu troseddau yn ystafell fawr Canolfan Daniel Owen a byddwn yn cynnal sesiwn codi ymwybyddiaeth am sgamiau a throseddau ar stepen drws. I gadw lle, galwch draw i'n Hwb Diogelwch yng Nghanolfan Daniel Owen rhwng 1 Iyb – 2yp o ddydd Llun i ddydd Sadwrn.



CEFNOGAETH PACT AR GYFER CYMDEITHAS CYMUNED TRELAWNYD



Bu i Gymdeithas Cymuned Trelawnyd ennill cyllid PACT er mwyn prynu offer newydd ar gyfer eu Clwb leuencid newydd ac i'w helpu i drefnu gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) i wirfoddolwyr. Dechreuwyd Clwb leuencid yn yr ardal yn ddiweddar er mwyn ymwneud gyda phobl ifanc 7-14 oed gyda'r diben o gynnal ardal ddiogel ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a difrod troseddol. Mae'r Clwb leuencid yn Neuadd Goffa Trelawnyd, Sir y Fflint ac mae croeso i bobl ifanc o bentrefi cyfagos Trelawnyd a Gwaenysgor ei fynychu. Mae'r clwb yn gyfle i bobl ifanc o ardaloedd cymharol anghysbell gymdeithasu y tu allan i oriau ysgol ynghyd â chyfarfod gyda phobl ifanc eraill yr ardal. Mae'r clwb

hefyd yn fodd o ddod â rheini a thrigolion yr ardal ynghyd fyddai o bosib heb gwrdd fel arall. Cafodd cyllid PACT ei ddefnyddio i brynu offer fel bwrdd tenis bwrdd, bwrdd pŵl, soffas, canolfan gerddoriaeth a Playstation a gemau. Yn ogystal bu i'r cyllid fynd tuag at gynnal gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer pedwar gwirfoddolwr sy'n cynnal y sesiynau.

Bu i Reolwr Prosiect PACT, Dave Evans, ymweld â'r clwb newydd yn ddiweddar gyda ymddiriedolwr PACT, Paul Hinchliffe. Bu'n gyfle i'r ddau weld yn uniongyrchol effaith y clwb ar bobl ifanc yr ardal ynghyd â chefnogaeth ddiwyd gwirfoddolwyr yr ardal. Dywedodd Dave: "Roeddwn innau a Paul wedi ein rhyfeddu gan yr ystod eang o weithgareddau sydd ar gael i'r bobl ifanc a'r rheolau y mae'r bobl ifanc wedi eu gosod eu hunain. Rydym yn ddiolchgar dros ben i wirfoddolwyr Cymdeithas Cymuned Trelawnyd fu'n gweithio'n galed iawn i ofalu fod y cynllun yn llwyddiant ysgubol!"

Mae'r clwb hefyd yn cynnig cyfle i addysgu'r bobl ifanc ac mae'r Tîm Cymdogaethau Diogelach wedi trefnu ymweliadau yn y dyfodol i gynnig sesiynau diogelwch ar bynciau fel diogelwch y ffordd, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol a diogelwch ar y we. Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned (PACT) ydy'r elusen dros ddiogelwch cymunedol sy'n cefnogi prosiectau cymunedol er mwyn gofalu bod Gogledd Cymru yn fwy diogel. Mae PACT yn dathlu 20 mlynedd o wasanaeth ac mae'n parhau i hyrwyddo prosiectau cymunedol sy'n cefnogi'r blaenoriaethau ynghylch plismona a diogelwch cymuned. Nod yr Ymddiriedolaeth ydy sicrhau deilliannau cadarnhaol i bawb ynghlwm.

Rhaglen Hyfforddi FLVC

Rydym yn trefnu a hyrwyddo amrywiaeth eang o gyrsiau hyfforddi – gallwch ddod o hyd i'r rhain ar dudalen Learning Zone / Parth Dysgu gwefan FLVC <https://flvc.org.uk/learningzone/>

Gallwch hefyd gysylltu gyda John Gray, Swyddog Gwybodaeth a Chyngor FLVC (Ffôn : **01352 744005** neu e-bost john.gray@flvc.org.uk) os ydych chi'n grŵp o ymddiriedolwyr, aelodau pwyllgorau neu gyfarwyddwyr i gynnig hyfforddiant yn ymwneud â

llywodraethu. Er enghraifft :

- Cofrestru Elusennau
- Newid i fod yn Fudiad Corfforedig Elusenol
- Dyletswyddau, cyfrifoldebau rhwymedigaethau ymddiriedolwyr yr elusen

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn unrhyw gwrs penodol, neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu sylwadau, mae croeso ichi e-bostio jane.hewson@flvc.org.uk

Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Cyfarfu'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams AC, â grŵp o fudiadau trydydd sector ar 13 Chwefror i drafod y cwricwlwm newydd i Gymru a dysgu oedolion yn y gymuned.

Gofynnwyd i'r Gweinidog am ddiweddariad ar yr hyn a fydd yn digwydd ar ôl yr ymgynghoriad ar ddyfodol dysgu oedolion yng Nghymru. Cadarnhaodd y Gweinidog fod swyddogion yn adolygu adborth yr ymgynghoriad i ystyried seilwaith priodol i gyflawni amcanion strategol y llywodraeth. Roedd pawb yn deall her ehangder darpariaeth dysgu ôl-16, sy'n amrywio o alw am lythrennedd a rhifedd sylfaenol, Saesneg ar gyfer Siaradwyr leithoedd Eraill (ESOL), uwchsgilio pobl mewn gwaith a phobl ddi-waith, i gyrsiau 'bachu' i alluogi pobl i aildechrau dysgu. Mynegodd y Gweinidog ddiddordeb brwd mewn edrych ar ffordd fwy hyblyg o gynnig llwybrau amgen at gymwysterau, gan alluogi pobl i ddysgu tra maent mewn gwaith ac yn unol ag ymrwymadau teuluol ac ymrwymadau eraill. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn credu bod angen i'n system addysg roi ail gyfle i ddinasyddion Cymru ddysgu, a chroesawodd cynrychiolwyr y trydydd sector frwdfrydedd y Gweinidog dros rôl dysgu oedolion yn y gymuned, a'i hymrwymiad i'r rôl honno er mwyn galluogi hyn. Dywedodd Kathryn Robson, Prif Weithredwr Addysg Oedolion Cymru a chynrychiolydd Cyngor

Partneriaeth y Trydydd Sector ar gyfer Addysg: "Rydym wrth ein boddau â'r gefnogaeth y mae'r Gweinidog wedi'i dangos dros addysg oedolion yng Nghymru a'i hymrwymiad i ddarparu cyfleoedd 'ail gyfle', wrth geisio canfod ffordd o ddarparu addysg gydol-oes ystyrlon".

Mae gwybodaeth ynglŷn â'r cwricwlwm newydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. <https://llyw.cymru/cwricwlwm-newydd>
"Cenhadaeth ein Cenedl - Cwricwlwm Gweddnewidiol" <https://llyw.cymru/cenhadaeth-ein-cenedl-cwricwlwm-gweddnewidiol>

Cyrsiau Gwirfoddol a Gefnogir

Ar hyn o bryd mae FLVC yn cynnal 3 cwrs gwirfoddoli â chymorth i bobl ennill mwy o sgiliau a magu hyder cyn iddynt roi cynnig ar leoliadau annibynnol. Mae pob un o'r 3 chwrs yn dod â sesiynau Lefel 1 OCN mewn Sgiliau Gwaith Gwirfoddol a sesiynau blasu gwirfoddolwyr ymarferol:

Prosiect Pobl Ifanc

Ar gyfer pobl ifanc (16 - 25 oed) a hoffai ddatblygu ac archwilio sgiliau gwaith gwirfoddol gan gynnwys pendantrwydd, rheoli amser a chyfathrebu. Nesaf ar gael Dyddiadau'r cyrsiau:
Mai 14, 21, 27, Mehefin 5

Camu Ymlaen i Wirfoddoli

Ar gyfer pobl a hoffai roi hwb i'w hyder a gweithio tuag at leoliadau gwirfoddoli annibynnol (neu nodau personol eraill). Mae'r cwrs hwn wedi'i anelu at unigolion ag anawsterau dysgu a / neu unigolion Awrtistig. Dyddiadau nesaf y cyrsiau sydd ar gael:
Mehefin 13, 20, 27, Gorffennaf 4, 11, 18

Camu Ymlaen Camu Allan

Mae'r cwrs hwn ar gyfer lechyd Meddwl gwell. Mae'n cael ei redeg gyda Mind Gogledd Ddwyrain Cymru. Y nod yw rhoi cynnig ar gyfleoedd gwirfoddoli newydd, cyfarfod â phobl newydd a gwella'ch lles. Dyddiadau'r Cwrs: **Ebrill 30, Mai 7, 14, 21, Mehefin 11, 18, 25,**

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r cyrsiau, cysylltwch â FLVC a gofynnwch am y Ganolfan Gwirfoddoli
01352 744000

Cronfa Clwb Bowlio Bryn Gwalia

Mae cronfa grantiau i gefnogi grwpiau cymunedol o amgylch Yr Wyddgrug wedi'i sefydlu o elw a wnaed o werthiant hen Glwb Bowlio Bryn Gwalia. Mae grantiau ar gael i fudiadau cymunedol gyda chyfansoddiad ffurfiol sydd hefyd:

- O fewn radiws 5 milltir o'r Wyddgrug, ac
- Yn ardal côd post CH7 (ac eithrio CH7 5A*, CH7 5B*, CH7 5U*, CH7 5X)

Bydd y gronfa yn cefnogi gweithgareddau cymunedol un tro, a bydd modd defnyddio'r grantiau tuag at, er enghraifft: prosiectau cyfalaf bach; offer; digwyddiadau cymunedol; marchnata a chyhoeddusrwydd; cyrsiau hyfforddiant, er budd y gymuned.

Dim ond swm penodol o arian sydd ac mae'n mynd yn llai ac yn llai – pan fydd wedi mynd, bydd wedi mynd yn llwyr!

Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda Heather ar

Tel: 01352 744004 or

e-mail: Heather.hicks@flvc.org.uk

Storïau Llwyddiant Clwb Bowlio Bryn Gwalia:

Seti newydd yn Theatr Fach Hawkesbury

Oherwydd grant gwerth £1,000 o gronfa Clwb Bowlio Bryn Gwalia, mae Theatr Fach Hawkesbury ym Mwcle wedi gallu uwchraddio eu seti am rhai mwy cyfforddus. Bu i'r grant alluogi Clwb Theatr Bwcle i newid 115 o seti yn yr



awditoriwm am seddi llawer gwell o Theatr Chipping Norton. Mae'r seddi hyn o safon uwch, sy'n llawer mwy cyfforddus, wedi cymryd eu lle yn dda yn eu lleoliad newydd, ac wedi eu croesawu'n fawr gan y rhai sy'n mynd i'r theatr ym Mwcle.



Adnewyddu Ty Clwb Canolfan Bowlio Llaneurgain

Roedd Canolfan Clwb Bowlio Llaneurgain yn llwyddiannus gyda'u cais am Grant Clwb Bowlio Bryn Gwalia i atgyweirio ac adnewyddu'r tŷ clwb. Bydd y grant £2,518 yn talu am do newydd i'r tŷ clwb ac yn adnewyddu'r nenfwd a'r gwaith pren sydd wedi'i ddifrodi gan ddŵr. Bydd y grant hefyd yn talu am wresogydd ac am ddeunydd i wella'r tu allan. Mae Canolfan Clwb Bowlio Llaneurgain yn cynnal caffi gwib a nosweithiau cymdeithasol rheolaidd i unrhyw un alw heibio a chwarae.

Grantiau Bach Hudol LOCALGIVING – yn Dychwelyd ar Gyfer 2019

Bu i Grantiau Bach Hudol Localgiving gydweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Cod Post Cymunedol unwaith eto i gynnig dros 400 o grantiau gwerth £500 i elusennau a grwpiau cymunedol bach. Diolch i gefnogaeth chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl, mae Grantiau Bach Hudol yn cynnig cyfle i elusennau a grwpiau cymunedol bach i fanteisio ar gyllid i gynnig gweithgareddau ymarferol atyniadol sy'n helpu goresgyn rhwystrau yn ymwneud â chymryd rhan.

Bydd mudiadau llwyddiannus hefyd yn derbyn aelodaeth blyneddol am ddim gyda Localgiving gwerth £96 lle bydd cyfle i'r mudiadau fanteisio ar adnodd codi arian ar-lein, adnoddau codi arian ac ymgyrchoedd cyllid cyfatebol rheolaidd. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ydy Tachwedd y 30ain 2019.

Adnodd Chwilio am Gyllid Newydd AR Wefan FLVC

Cyllido Cymru yw'r llwyfan newydd i chwilio am gyllid i'r trydydd sector yng Nghymru. Fe'i datblygwyd gan rwydwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru i alluogi mudiadau trydydd sector i chwilio drwy gannoedd o gyfleoedd am grantiau ac arian benthyg o ffynonellau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae cyllid cynaliadwy yn hanfodol i waith mudiadau trydydd sector ac mae'r gallu i chwilio am ffynonellau priodol o gyllid a dod o hyd iddynt yn rhan bwysig o



gyflawni hyn. Penderfynodd Cefnogi Trydydd Sector Cymru i ddatblygu'r llwyfan hwn i'w gwneud yn haws i'r trydydd sector yng Nghymru sicrhau cyllid cynaliadwy.

Gall Cyllido Cymru helpu mudiadau yng Nghymru i ddod o hyd i'r cyllid sydd ei angen arnynt yn gynt nag erioed o'r blaen. Mae'r peiriant chwilio yn helpu defnyddwyr i ganfod ffynonellau perthnasol o gyllid yn gyflym ac yn effeithiol. Mae'r wefan ar gael yn rhad ac am ddim, mae ganddi broses gofrestru syml, ac mae modd i fudiadau chwilio am gyllid yn ôl diben, lleoliad a swm, ac mae meysydd pellach ar gael i fireinio canlyniadau chwilio. Mae modd i ddefnyddwyr hefyd gadw canlyniadau chwilio ac argraffu adroddiadau.

<https://www.flvc.org.uk/en/sustainable-funding/funding-advice/>

Coed am ddim ar gyfer ysgolion a chymunedau

Mae'r Ymddiriedolaeth Coetir yn rhoddi cannoedd ar filoedd i ysgolion a chymunedau i ofalu bod cyfle i bawb ym Mhrydain blannu coeden. Maen nhw'n derbyn ceisiadau ar hyn o bryd ar gyfer coed i'w danfon ym mis Tachwedd 2019.

<https://www.woodlandtrust.org.uk/plant-trees/free-trees/>

Book at Bedtime – Stoni Lwyddiant



Roedd Book at Bedtime, mudiad o Sir y Fflint sy'n darparu llyfrau i blant sy'n byw mewn canolfannau noddfa rhag trais yn y cartref, yn

llwyddiannus gyda'u cais am grant i ddarparu teganau a llyfrau therapiwtig. Bydd grant Arian i Bawb o Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol o £1,922 yn talu am 33 o lyfrau a theganau Monkey Bob, Not Now Bernard a Worry Monsters er budd pob plentyn mewn noddfa ar draws Cymru.



Mae mwy am fudiad Book at Bedtime ar Facebook:

<https://www.facebook.com/BookatBedtime>

neu ar eu gwefan: <https://bookatbedtime.org/>

Grantiau Datblygu Chwaraeon Cymru

Mae arian ar gael i Glybiau neu Gymdeithasau Chwaraeon, Clybiau Ieuencid a Grwpiau Cymunedol sydd am sefydlu tîm newydd, datblygu cyfleusterau ymarfer newydd neu brynu offer mawr ei angen.

Mae grantiau rhwng £1,501 a £25,000 ar gael i dalu am y prosiectau uchod, yn ogystal â'r canlynol:

- Addysg i hyfforddwy
- Llifleuadau at ddibenion hyfforddi
- Prynu tir neu hawliau ar dir er mwyn datblygu mannau gweithgarwch
- Grantiau sefydlu i gefnogi mentrau newydd

Gallwch ddarllen mwy am hyn ar

<http://chwaraeon.cymru/cyllid-a-chefnogaeth/grantiau-ein/grantiau-datblygu.aspx>


Côd Ymarfer

Mae'r Côd Ymarfer ar gyfer sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr. Os oes arnoch chi angen gwybodaeth bellach neu ganllawiau ar sut i gefnogi eich gwirfoddolwyr, cysylltwch gyda Jan Owen, rheolwraig y Ganolfan Wirfoddoli

janet.owen@flvc.org.uk

01352 744016

https://www.wcva.org.uk/media/58792/wcva_volunteering_code_of_practice_a2_poster_4_final_proof.pdf

*KEYRING ... Rydym ni'n newid bywydau*

Newyddion gwych gan Keyring! Rydym ni'n cynnig rhaglen hyfforddiant teithio i unigolion ac rydym ni'n chwilio am wirfoddolwyr! Oes gennych chi 'chydig o amser rhydd bob wythnos? Ydych chi am wneud rhywbeth sy'n rhoi boddhad ac yn helpu rhywun i fagu hyder a bod yn fwy annibynnol? Os ydych chi, cysylltwch gyda ni.

Caiff ein rhaglen hyfforddiant teithio ei rhedeg mewn sesiynau. Byddwch chi, y gwirfoddolwr, yn gyfrifol am ddarparu'r hyfforddiant hwn gan ddileu un proses ar y tro bob tro byddwch chi'n darparu sesiwn, gan felly fagu hyder ac annibyniaeth. Os ydych chi am ymuno â'r rhaglen, rydym ni'n gofyn fod gennych chi gerdyn bws yn barod neu eich bod chi'n fodlon prynu tocynnau bws ar gyfer eich sesiynau.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda:

For further information contact :

Lizzie.Jones@keyring.org

Sharna.Hinds@keyring.org

Pauline.Jarvis@keyring.org

Cyfarfodydd Rhwydwaith Gwirfoddoli FLVC

Caiff cyfarfod Rhwydwaith Gwirfoddoli FLVC ei gynnal pedair gwaith y flwyddyn. Mae am ddim i sefydliadau'r Trydydd Sector ac yn gyfle i gael gwybod mwy am yr hyn sy'n digwydd ar draws Sir y Fflint.

Dyma 'chydig o adborth a rhesymau dros fynd i'r cyfarfodydd:

"Mae rhwydweithio yn hanfodol er mwyn cael gwybod am y pethau diweddaraf sy'n digwydd mewn sefydliadau, prosiectau newydd ac unrhyw gyfleoedd nawdd."

"Mae'n wych gallu cysylltu gyda sefydliadau eraill a chael cyfle i gydweithio er mwyn helpu'r bobl rydym ni'n eu cefnogi"

Os hoffech chi fod yn siaradwr gwadd neu fynd i'r cyfarfod nesaf, anfonwch e-bost at

karen.peters@flvc.org.uk



Wythnos Genedlaethol y Gwirfoddolwyr

Mae Wythnos Genedlaethol y Gwirfoddolwyr yn gyfle i ddweud diolch am y cyfraniad arbennig mae miliynau o wirfoddolwyr yn ei wneud ar draws Prydain. Mae'n digwydd rhwng y 1af-7fed o Fehefin bob blwyddyn ac yn gyfle i ddathlu gwaith gwirfoddol yn ei holl gyfanrwydd. Eleni bydd FLVC yn cynnal digwyddiad Dathlu Gwirfoddoli ar ddydd Mawrth y 4ydd o Fehefin, yn Canolfan Gymunedol RiverDee, Fflint

- Dewch â'ch gwirfoddolwyr gweithgar gyda chi

- Cyfle i fwynhau te prynhawn ac adloniant

- Derbyn eich Tystysgrifau Wythnos Cenedlaethol y Gwirfoddolwyr

Rhowch y dyddiad yn eich dyddiadur a dewch â'ch gwirfoddolwyr gyda chi. Dewch inni ddathlu gyda'n gilydd.



GERFODDOLI

Credydau Amser Gogledd-Ddwyrain Cymru

BETH YDY CREDYDAU AMSER?

Mae Credydau Amser yn fath o arian cymunedol gallwch chi eu hennill trwy roi o'ch amser i wasanaeth neu grwp cymunedol. Fe allwch chi yna wario credydau amser ar awr o weithgaredd mewn canolfannau hamdden lleol, llefydd twristaidd, diwrnodau allan a gweithgareddau llawn hwyl. Fe allwch chi hefyd roi Credydau Amser i'ch ffrindiau neu eich teulu fel anrheg fel bod modd iddyn nhw fwynhau'r profiadau hyn.

PAM DEFNYDDIO CREDYDAU AMSER?

Gall defnyddio Credydau Amser helpu eich gwirfoddolwyr/aelodau i:

- Ddod i adnabod eu cymuned
- Cyfarfod pobl newydd
- Rhoi cynnig ar bethau newydd
- Cael profiad o weithgareddau a chyfleoedd newydd
- Teimlo'n fwy hyderus
- Gwella eu hiechyd a'u lles

Os ydych chi'n grwp neu yn wasanaeth yn Sir y Fflint neu Wrecsam, fe allwch chi gofrestru i ddefnyddio Credydau Amser am ddim.

Fe allwch chi ddefnyddio Credydau Amser i wobrwyo eich gwirfoddolwyr

Gall gwirfoddolwyr sy'n 50 oed a throsodd ennill hyd at 5 Credyd Amser yr wythnos am yr oriau maen nhw'n eu rhoi yn cefnogi eich grŵp. Gall pob gwirfoddolwr ennill Credydau Amser am roi o'u hamser i gefnogi gweithgareddau i bobl hŷn.

Am fwy o wybodaeth ewch i

www.facebook.com/cwtimecredits,

ebost harriet@wearetempo.org neu galw

07472 884920



Llais Gwirfoddol II

Rhif I 2019

Llywodraethu

Un o'r heriau mwyaf i fudiadau trydydd sector yw sicrhau bod eu gweithdrefnau a'u prosesau yn cael eu diweddarau i gydymffurfio â'r deddfau a'r rheoliadau diweddaraf.

Bydd ein cyrsiau hyfforddi llywodraethu a diogelu i staff ac ymddiriedolwyr yn rhoi'r wybodaeth a'r offer angenrheidiol i chi sicrhau bod eich mudiad yn cael ei redeg yn ddiogel, yn effeithiol ac yn gyfreithlon.

Mae rhagor o wybodaeth ac adnoddau ar lywodraethu ar gael yn ein hadran cyngor ac arweiniad.

(<https://www.wcva.org.uk/advice-guidance>)

Y Rheoleiddiwr Codi Arian – Gwasanaeth Dewisiadau Codi Arian (FPS)

Bu i'r Rheoleiddiwr Codi Arian gyflwyno hysbysiadau rheoleiddio yn erbyn 59 elusen sydd wedi methu â chydymffurfio gyda'r Gwasanaeth Dewisiadau Codi Arian (FPS). Mae gofyn i elusennau gydymffurfio gyda'r Gwasanaeth Dewisiadau Codi Arian o dan ddarpariaethau'r Cod Ymarfer Codi Arian a'r Ddeddf Gwarchod Data 2018. Mae'r 59 elusen wedi eu cyfeirio at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi iddyn nhw anwybyddu ceisiadau gan aelodau'r cyhoedd i beidio â derbyn deunydd marchnata uniongyrchol ganddyn nhw.

Mae hawl gan aelod o'r cyhoedd fanteisio ar y Gwasanaeth Codi Arian i atal cyfathrebu gan elusennau dydyn nhw ddim eisiau derbyn deunyddiau ganddyn nhw bellach yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon. Fe allan nhw fanteisio ar y gwasanaeth i atal galwadau, negeseuon testun, post ac e-byst. Bu i oddeutu 8,300 o bobl gyflwyno dros 25,000 cais ers lansio'r Gwasanaeth Dewisiadau Codi Arian yn 2017. Mae oddeutu traean o bobl sy'n manteisio ar wasanaeth yr FPS yn gwneud hynny ar ran unigolyn bregus.

Wythnos Ymwybyddiaeth Twyll Elusennau yn ennill gwobr

Mae ymgyrch Wythnos Ymwybyddiaeth Twyll Elusennau (22-26 Hydref 2018) wedi ennill Gwobr Gwrth-dwyll y Llywodraeth am gydweithio rhyngwladol rhagorol. Mae'r Panel Cyngori ar Dwyll yn bartneriaid ar y cyd ar gyfer yr ymgyrch hon.

Gweithiodd dros 40 o elusennau, rheoleiddwyr, cyrff proffesiynol a rhanddeiliaid eraill ar draws y byd i helpu i frwydro yn erbyn twyll a dargedwyd at elusennau.

Tafleenni cymorth wythnos twyll

Tafleenni cymorth wythnos twyll Mae'r tafleenni cymorth byr hyn yn cwmpasu pynciau twyll ac mae ganddynt gyngor defnyddiol i amddiffyn eich elusen:

- dod i adnabod eich deiliaid grantiau
- dod i adnabod eich rhoddwyr
- cyflwyniad i dwyll etifeddol
- cyflwyniad i dwyll digwyddiadau codi arian
- dod i adnabod eich staff (twyll mewnol)
- cyflwyniad i chwythu'r chwiban
- cyflwyniad i symud arian yn ddiogel

Gellir eu gweld drwy'r ddolen isod:

<https://www.gov.uk/government/news/charity-fraud-awareness-week-22-26-october-2018>

Mae'r Small Charities Coalition yn lansio offeryn i helpu elusennau i gofrestru gyda'r Comisiwn

Mae'r Small Charities Coalition wedi creu pecyn offer digidol newydd i gefnogi elusennau bach sy'n ceisio dechrau a chofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau. Mae gwefan newydd, charitysetup.org.uk, yn rhoi gwybodaeth i elusennau am sefydlu eu hunain a chofrestru gyda'r Comisiwn. Daw ar ôl i'r corff ganfod bod 44 y cant o'i ymholiadau llinell gymorth yn ymwneud â sefydlu elusen. Mae'n cynnig rhestr wirio o gamau i'w cymryd wrth sefydlu elusen, gan gynnwys cofrestru gyda'r Comisiwn, cadw cofnodion cyfarfodydd, rheoli cyllid a recriwtio ymddiriedolwyr. Am fwy o wybodaeth, gweler:

<https://www.civilsociety.co.uk/news/small-charities-coalition-launches-digital-tool-to-support-new-charities-launch.html>